GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 32: wythnos **23/08/2021**

## Cynnydd Wythnosol (16 - 23 Awst)

**Rydym bellach wedi brechu 89% o boblogaeth oedolion y Bwrdd Iechyd gyda dosau cyntaf ac mae 85% o bobl dros 18 wedi'u brechu'n llawn â dau ddos.**

## Brechu pobl 16 a 17 oed



Yr wythnos hon, rydym yn brechu pobl 16 a 17 oed. Cynhelir apwyntiadau cychwynnol ar 23, 24 a 25 Awst, gyda chlinigau pellach wedi'u trefnu ar gyfer y rheiny nad oeddynt yn gallu mynd i'w hapwyntiad gwreiddiol.

Rydym eisiau sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu hanghofio wrth i ni weithio i frechu pawb sydd dros 16 oed. Os nad ydych wedi cael eich gwahoddiad, neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch apwyntiad, cysylltwch â'r ganolfan trefnu apwyntiadau ar **0300 303 1373**.

Mae'r Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan wedi cyhoeddi datganiad yn annog pawb i gael brechiad COVID. Dywedodd: *Mae ein rhaglen frechu yn arwain y byd, ond rydym yn ymwybodol fod rhai pobl nad ydynt eto wedi manteisio ar y cynnig o frechiad. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod pobl ifanc, gan gynnwys pobl dros 16 oed sydd bellach yn gymwys i gael y brechlyn, yn manteisio ar y cynnig fel eu bod mewn llai o berygl o effeithiau coronafeirws gan eu bod bellach yn gallu cymdeithasu mwy.*

*Y brechlyn yw ein diogelwch gorau posibl yn erbyn coronafeirws.*

## Diolch i'n pobl ifanc!

Mae bron i wyth o bob deg o bobl 18-29 oed, yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, eisoes wedi cael eu brechu. Mae'r ffigwr gwych hwn yn gwneud ardal ein Bwrdd Iechyd yn un o'r arweinwyr ardraws Cymru ar gyfer brechu yn y grŵp oedran hwnnw, ynghŷd â chael phedwar o'n bump Bwrdeistref o fewn y pump Awdurdod Lleol orau yn genedlaethol.

Os ydych chi'n un o'r ychydig sydd heb gael eich brechu eto, nid yw'n rhy hwyr. Ffoniwch ein canolfan archebu ar **0300 303 1373.** Drwy gael y brechiad, gallwch helpu i ddiogelu eich hunain, eich anwyliaid a'ch cymuned.

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 23/08/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**849,631**

**Cyfanswm y dos cyntaf 435,913**

**Cyfanswm yr ail ddos 413,718**

**Pobl 65 oed a'n hŷn** 96% 95%

**Grŵp 6 (Agored i Niwed)** 91% 88%

**Pobl 60-64 mlwydd oed** 94% 93%

**Pobl 55-59 mlwydd oed** 93% 91%

**Pobl 50-54 mlwydd oed** 91% 89%

**Pobl 40-49 mlwydd oed** 87% 84%

**Pobl 30-39 mlwydd oed** 81% 74%

**Pobl 18-29 mlwydd oed** 79% 69%

## Brechiadau COVID-19, beichiogrwydd a bwydo ar y fron



**Mae menywod beichiog, menywod sy'n ceisio beichiogi a menywod sy'n bwydo ar y fron yn cael eu hannog i gael eu brechiadau COVID-19. Mae hyn yn unol â chanllawiau JCVI, sy'n nodi y dylai menywod beichiog, menywod sy'n ceisio beichiogi a menywod sy'n bwydo ar y fron i gyd cael cynnig y brechiad COVID-19, er mwyn diogelu eu hunan a'u babanod rhag peryglon COVID-19.**

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg fach o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis bod angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd ac mewn menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

Brechu yw'r ffordd orau i ddiogelu rhag y risgiau hysbys hyn o COVID-19. Mae'r JCVI yn cynghori y dylai menywod beichiog gael brechiadau Pfizer/BioNTech neu Moderna MRNA, gan fod y brechiadau hyn wedi cael eu defnyddio'n ehangach ar gyfer menywod beichiog mewn gwledydd eraill ac nid oes unrhyw bryderon diogelwch. Fodd bynnag, cynghorir menywod beichiog sydd wedi cael eu dos cyntaf o frechiad Rhydychen/AstraZeneca, ac nad oedd ganddynt unrhyw sgil-effeithiau difrifol, i gael ail ddos. Nid brechiadau 'byw' yw'r brechiadau COVID-19 yr ydym yn eu defnyddio yn y DU ac felly ni allant achosi haint COVID-19 mewn menywod na'u babanod.

Nid oes tystiolaeth bod brechiadau COVID-19 yn effeithio ar ffrwythlondeb dynion na menywod. Nid oes angen i fenywod sy'n ceisio beichiogi osgoi beichiogrwydd ar ôl y brechiad.

Os ydych yn feichiog a hoffech drafod unrhyw bryderon ynghylch brechiadau COVID-19, siaradwch â'ch Bydwraig, neu Feddyg yn un o'n Canolfannau Brechu Torfol. Ceir rhagor o wybodaeth yn: https://www.rcog.org.uk/en/guidelines-research-services/coronavirus-covid-19-pregnancy-and-womens-health/covid-19-vaccines-and-pregnancy/covid-19-vaccines-pregnancy-and-breastfeeding/




## Goldie Lookin Chain Casnewydd - Get the Jab Done

Mae sengl newydd sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cael brechiad Covid-19 wedi cael ei ryddhau gan y grŵp rap o Gasnewydd, Goldie Lookin Chain. Mae'r fideo, mewn arddull nodweddiadol ddychanol GLC, yn dangos pa mor ddiogel a hawdd ydyw i gael y brechiad, gyda geiriau fel "I've got 99 problems but a jab ain't one". Mae'r band wedi cael ei frechu'n llawn ac maent yn awyddus i annog eraill i wneud yr un peth. Dywedodd Rhys o GLV, "nes bod pawb wedi'u diogelu, nid oes unrhyw un wedi'u diogelu".

Gallwch wylio'r fideo llawn yn https://m.youtube.com/watch?v=75gvO5ttrWg&feature=youtu.be

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i: https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

**Os ydych chi'n 16 oed ac yn hŷn ac heb dderbyn eich brechiad, nid yw'n rhy hwyr!**

**Ffoniwch 0300 303 1373**